Adroddiad Cyfarfod
14:05:14
Helen Holland
Môn Ar Lwy

Croesawyd nifer dda o'r aelodau gan Jen y Llywydd i'r cyfarfod nos Fercher Mai 14eg yn Festri Cysegr. Llongyfarchodd Mair Williams am ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd mab, Elis Owain i Owain ac Alison yn Abertawe.

Yn dilyn cael linc o wefan Merched y Wawr i'n gwefan ni cawsom neges gan Tegwen, Y Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn ein llongyfarch ar ein gwefan "*mae'n werth ei gweld*" meddai. Dywedodd Gill Griffiths, y Llywydd Cenedlaethol "*Llongyfarchiadau i chi ar eich gwefan. Diddorol iawn – a mwy i ddod. Ardderchog. Da iawn chi*."

Tynwyd sylw fod llun Mair Price yn y rhifyn cyfredol o'r "Wawr" wedi iddi ysgrifennu erthygl ar Antur Waenfawr.

Llongyfarchwyd Angharad Price ar gyrraedd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn efo'i llyfr 'Ffarwel i Freiburg' yn yr adran 'Ffeithiol Greadigol.

Dymunwyd y gorau a gwellad llwyr i Catrin, merch Mary yn dilyn ei thriniaeth yn ddiweddar.

Dymunwyd yn dda i Brian, gwr Eirlys sydd wedi torri ei fraich pan ar wyliau.Dymunwyd yn dda i John gwr Liz sydd wedi bod nol yn yr Ysbyty.

Croesawyd Alys yn ol atom wedi iddi fod ddim yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cyhoeddwyd fod y cyfrafod blynyddol Sadwrn 17 Mai ym Machynlleth.

Aeth 250 o aelodau'r mudiad gan gynnwys 5 o'r gangen i Wyl y 5 Rhanbarth dydd Sadwrn y 7fed Mai ym Mangor. Cafwyd amrywiaeth yn diddannu yn ystod y dydd. Gethin a Gwilym oedd yn agor y diwrnod, ac roeddynt yn llwyddiant ysgubol a phawb yn rhyfeddu at eu doniau cerddorol.

Bu Bet, Gwyneth Jones, Gwyneth Williams ac Anne am benwythnos a drefnwyd gan Rhiannon Parry o gangen Penygroes. Galwyd yn yr Amgueddfa Wlan yn Felindre ar y ffordd i aros am ddwy noson yng Ngwesty'r Marriott yn Abertawe. Wedi bore o siopa aethant i'r Mwmbls gan socian at eu crwyn. Mwynhawyd cinio Sul yn Fferm Cwm Cerrig ar y ffordd adref.

Yn dilyn trafodaeth penderfynnwyd cychwyn i Amgueddfa Telford am 5.30y.h. fel bod digon o amser i fynd allan i ymweld â'r bont a chael pryd wedyn yn Carreg Bran.

Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth, ac erbyn hyn cafwyd mwy o fanylion am y daith gerdded sy'n cael ei gynnal 28 Mehefin gan gyfarfod ar lan mor Aberdesach am 1.00pm, gan gerdded am bont y Cim ac yn ol ar hyd glan y mor am Aberdesach- taith o rhyw ddwy awr.

Haf Roberts o Lansannan gafodd y swydd is Ysgrifennyd efo mwyaf o bleidleisiau.

Ein gwraig wadd oedd Helen Holland o gwmni 'Môn ar Lwy'. Sefydlodd y busnes yn 2008 yn ogystal a bod yn athrawes rhan amser. Mynychodd gyrsiau cychwyn busnes, cyrsiau helendid bwyd a sut i wneud hufen ia.Enillodd y cwmni nifer o wobrau am ansawdd yr hufen ia. Yn 2012 enillwyd cynnyrch gorau Môn.

Dechreuwyd efo 4 blas – fanila,siocled,mefys a mint ond erbyn hyn mae nifer fawr o wahanol flasau ar gael. Cawsom y pleser o flasu 5 blas, mefys, siolcled, llys, menyn cnau a blas bara brith. O weld sut bu i'r aelodau fwyta'r hufen ia toes dim syndod fod 'Môn ar Lwy' yn mynd o nerth i nerth.

Diolchodd Eirlys Willams i Helen am noson hynod o bleserus. Bydd gwefan y cwmni yn cael ei lansio yn fuan. Mae'r cwmni wedi cael yr hawl i werthu hufen ia yn Ninas Dinlle yn ystod yr haf ac mae'n awyddus i gyflogi pobl lleol yno. Mae croeso i unrhyw un sydd angen swydd dros yr haf i gysylltu a'r cwmni.

Yn dilyn pleidleisio ar ddechrau'r noson etholwyd pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Llywydd –Mair Price

Is Lywydd – Mair Read

Ysgrifennydd – Rita Williams

Is Ysgrifennydd – Anita Owen

Trysorydd – Mair Williams

Is drysorydd – Anwylyd Jones

Aelodau'r pwyllgor

Liz Watkin, Nora Parry, Mary Evans, Bet Owen, Eirlys Sharpe, a Sheila Roberts

Diolchodd Jen iddynt i gyd am dderbyn y swyddi heb unrhyw drafferth. Diolchodd hefyd i Ellen am drefnu'r baned a chael Alys ac Eleri i helpu.

Enillwyd y raffl gan Rita. Cofiwch os nad ydych wedi dod ac arian £20, a dewis bwyd i ddod a nhw mor fuan a phosibl i Gwyneth, Jen neu Anne.